Arewinydd Credydau Treth

Beth yw credydau treth?

Y mae yna ddau fath o gredydau treth sy'n cynnig cymorth ariannol i deuluoedd. Fe ellir hawlio'r **Credyd Treth Gwaith** gan unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn ac sy'n gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos. Fe all rhai gweithwyr neilltuol eraill nad oes ganddynt blant hefyd hawlio. Fe ellir hawlio'r **Credyd Treth Plant** gan deuluoedd sydd â phlant, ni waeth a ydych yn gweithio ai peidio.

Fe weinyddir y credydau hyn gan Gyllid y Wlad, ac yn dibynnu ar eich amgylchiadau y mae'n bosibl bod yn gymwys am y naill neu'r llall neu'r ddau. Y maent wedi galluogi Cyllid y Wlad i gynorthwyo mwy o bobl nag erioed o'r blaen ac fe amcangyfrifir fod 9 o bob 10 o deuluoedd yn gymwys am rywfaint o gredydau treth.

Y bwriad yw bod y daflen wybodaeth hon yn cael ei defnyddio fel canllaw cyffredinol ar gyfer teuluoedd sy'n gofalu am blentyn sydd ag anabledd. Y mae'n cynnwys tablau cyfrifydd parod i roi rhyw arwydd ichi o faint o gredydau treth y dylai teulu yn eich amgylchiadau chi eu derbyn.

Os hoffech gael dadansoddiad cyflawn o'ch hawl tebygol, neu os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am gredydau treth, ffoniwch ein Llinell Gymorth am ddim, os gwelwch yn dda. Yr ydym yn cyflogi arbenigwr ar hawliau lles sy'n gallu darparu cyngor manwl ynglŷn ag unrhyw agwedd o hawlio credyd treth.

Credydau Treth a theuluoedd sydd ar Gymhorthdal Incwm

Y mae credydau treth eisoes wedi disodli amryfal daliadau megis ychwanegiadau dros blant a wnaed yn flaenorol fel rhan o fudd-daliadau megis Lwfans Gofalwr.

Y mae'r llywodraeth hefyd yn bwriadu cael y Credyd Treth Plant i ddisodli holl daliadau Cymhorthdal Incwm (CI) a Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm (LCGsi) dros blant. Ers Ebrill 2004, y mae ceisiadau newydd am CI/LCGsi ond wedi cynnwys symiau ar gyfer yr hawliwr a'u cymar, ac fe fydd angen cais ar wahân am Gredyd Treth Plant dros unrhyw blant. Y mae teuluoedd a oedd eisoes yn cael CI/LCGsi cyn Ebrill 2004 yn gychwynnol wedi cael y dewis o barhau i gael symiau dros blant wedi'u cynnwys yn eu dyfarndal. Fodd bynnag, rhywbryd ar ôl Ebrill 2005, fe gaiff y teuluoedd hyn eu trosglwyddo yn awtomatig i Gredyd Treth Plant. Bryd hynny, dim ond y symiau ar gyfer oedolion o CI/LCGsi a gaiff eu talu, gyda thaliad ar wahân o Gredyd Treth Plant yn cael ei wneud dros blant. Fe fydd y rhan fwyaf o rieni yn parhau i dderbyn CI/LCGsi ar gyfradd is. Fodd bynnag, fe all rhai teuluoedd ganfod nad ydynt mwyach yn derbyn CI/LCGsi, unwaith y mae symiau dros eu plant yn cael eu tynnu ymaith.

Y mae'r llywodraeth yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o rieni sydd ar CI/LCGsi, o ganlyniad i drosglwyddo i Gredyd Treth Plant, naill ai'n well eu byd neu heb fod yn gweld unrhyw newid yng nghyfanswm eu hincwm wythnosol. Fodd bynnag, fe allai nifer fechan iawn fod ar eu colled. Cysylltwch â'n Llinell Gymorth am gyngor manwl os hoffech wybod sut yr effeithir arnoch gan ddyfarniad y Credyd Treth Plant.

Pwy a gynhwysir yn eich cais?

Y mae'n rhaid i gyplau wneud cais ar y cyd. Fe allwch hefyd hawlio dros blentyn sydd fel arfer yn byw gyda chi, hyd at y Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed (neu tan y byddant yn 19 mlwydd oed os ydynt yn parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch).

Os yw plentyn yn dechrau gwaith amser llawn, rhai mathau o hyfforddiant neu y mae'n hawlio rhai budd-daliadau neilltuol (megis Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm neu Fudd-dal Analluogrwydd) yn ei rinwedd ei hun, fe olyga hyn na allwch mwyach dderbyn credydau treth drostynt. Cysylltwch â'r Llinell Gymorth am ragor o gyngor parthed y mater hwn. Fe ddylech hefyd ymofyn rhagor o gyngor os yw'ch plentyn yn mynd dan ofal a ariannir gan yr Awdurdod Lleol.

A allwch hawlio Credyd Treth Gwaith?

Er mwyn hawlio Credyd Treth Gwaith, y mae'n rhaid ichi fod yn:

- 16 mlwydd oed neu hŷn; **ac yn**
- Byw yn y Deyrnas Unedig a heb fod yn ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo (gyda rhai eithriadau); **ac yn**
- Gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos a bod yn gyfrifol am un neu fwy o blant.

D.S.: Y mae rhai gweithwyr eraill heb blant (e.e. gweithwyr anabl) hefyd yn gallu hawlio Credyd Treth Gwaith. Os nad ydych yn gofalu am blentyn, fe ddylech ymofyn cyngor oddi wrth Ganolfan Gynghori leol neu wasanaeth hawliau lles.

Wrth gloriannu a ydych yn gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos, y mae Cyllid y Wlad yn cyfrif yr oriau yr ydych yn eu gweithio fel arfer, gan anwybyddu egwyl prydau bwyd di-dâl. Er enghraifft, os ydych yn rheolaidd yn gweithio oriau ychwanegol, fe gaiff yr oriau ychwanegol hynny eu cynnwys.

Y mae yna hefyd reolau arbennig i ganiatáu i rai pobl fod yn gymwys a fu'n gweithio ond sydd yn awr wedi rhoi'r gorau iddi dros dro, gan gynnwys gweithwyr ysgol yn gweithio yn ystod y tymor ysgol yn unig, merched ar Dâl Mamolaeth Statudol neu Lwfans Mamolaeth, pobl ar Dâl Mabwysiadu neu Dadolaeth Statudol, a phobl nad ydynt yn gweithio ar y pryd oherwydd gwaeledd (cyn belled nad yw hyn yn fwy nag 28 o wythnosau).

Yr Elfen Gofal Plant o Gredyd Treth Gwaith

Os ydych yn gwario arian ar ofal plant pan ydych yn gweithio, fe all eich cais am Gredyd Treth Gwaith gynnwys cymorth gyda 'chostau gofal plant cymwys'. Er mwyn i'ch costau gofal plant gael eu cymryd i ystyriaeth, y mae'n rhaid ichi fod yn naill ai'n:

- Rhiant unigol sy'n gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos; neu
- Cwpl sydd ill dau'n gweithio 16 o oriau neu fwy yr wythnos; neu
- Cwpl ble y mae un ohonynt yn gweithio 16 o oriau neu fwy yr wythnos ac y mae'r llall yn derbyn rhai budd-daliadau anabledd/analluogrwydd neilltuol (neu y maent mewn ysbyty neu garchar).

Pa fath o gostau gofal plant y gellir eu cymryd i ystyriaeth?

Dim ond gofal plant cofrestredig neu wedi'i gymeradwyo y gellir ei ystyried. Y mae hyn yn cynnwys gwarchodwyr plant cofrestredig, meithrinfeydd a chynlluniau eraill a weithredir gan ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo. Fe all gofal yng nghartref y plentyn ei hun hefyd gael ei gyfrif os caiff ei ddarparu gan rywun sydd wedi'i gofrestru. O Ebrill 2005 (yn Lloegr yn unig), fe gaiff hyn ei ymestyn i ofal yng nghartref y plentyn a ddarperir gan famaethod a gofalwyr plant eraill a gymeradwywyd o dan Gynllun newydd Cymeradwyo Gofal Plant. Nid yw gofal plant a ddarperir gan berthynas yng nghartref y plentyn yn cyfrif – y mae hyn yn dal yn wir hyd yn oed os yw'r perthynas hwnnw yn ofalwr plant wedi'i gymeradwyo. Os yw plentyn ar LBA neu wedi'i gofrestru fel dall, fe ellir cynnwys costau gofal plant tan y Medi ar ôl ei ben-blwydd yn **16 mlwydd oed**, neu fel arall fe ellir ond cynnwys costau gofal plant tan y Medi ar ôl ei ben-blwydd yn **15 mlwydd oed**.

Y swm uchaf o ofal plant y gellir ei gymryd i ystyriaeth yw £175 yr wythnos dros 1 plentyn, a £300 yr wythnos dros 2 neu fwy o blant. Dim ond 70% o gostau gofal plant y gellir ei dalu. Fe olyga hyn mai'r swm mwyaf y gellir mewn gwirionedd ei gynnwys tuag at gostau gofal plant yw £122.50 yr wythnos (70% o £175) dros 1 plentyn a £210 yr wythnos (70% o £300) dros 2 neu fwy o blant. Yr ydym yn cynhyrchu 'Canllaw cryno i Gredydau Treth a chymorth gyda gofal plant'. Y mae hwn ar gael am ddim oddi wrth y Llinell Gymorth ac y mae'n darparu gwybodaeth fanylach am ffurfiau cymwys o ofal plant ac am sut y mae costau gofal plant cyfartalog yn cael eu cyfrifo.

A allwch chi hawlio Credyd Treth Plant?

Er mwyn hawlio Credyd Treth Plant, y mae'n rhaid ichi fod yn:

- 16 mlwydd oed neu hŷn; **ac yn**
- Byw yn y DU a heb fod yn ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo (gyda rhai eithriadau); **ac yn**
- Gyfrifol am un neu fwy o blant dibynnol.

Fe ellir hawlio Credyd Treth Plant, ni waeth a ydych yn gweithio ai peidio ac fe'i telir yn ychwanegol at Fudd-dal Plant. Fe all fod swm y Credyd Treth Plant yr ydych yn ei dderbyn fod yn uwch os oes gennych blentyn ar Lwfans Byw i'r Anabl (LBA). Y mae hyn oherwydd bod yna swm ychwanegol a adwaenir fel yr 'elfen anabledd' yn cael ei ychwanegu at eich cyfrifiad credyd treth dros bob plentyn sydd ar LBA neu wedi'i gofrestru fel dall. Os yw'ch plentyn yn cael y gyfradd uchaf o elfen gofal y LBA, fe ychwanegir 'elfen anabledd difrifol' arall yn ogystal. Fe all Credyd Treth Plant naill ai gael ei dalu ar ei ben ei hun neu ochr yn ochr â Chredyd Treth Gwaith.

Sut y mae Credydau Treth yn cael eu talu?

Fe delir Credyd Treth Gwaith (ac eithrio ar gyfer unrhyw elfen gofal plant) ynghyd â'ch cyflog gan eich cyflogwr. Fe delir i bobl hunan-gyflogedig yn uniongyrchol gan Gyllid y Wlad.

Y mae Credyd Treth Plant ac unrhyw Gredyd Treth Gwaith tuag at gostau gofal plant yn cael eu talu i brif ofalwr y plant, fel arfer drwy drosglwyddo uniongyrchol i gyfrif banc. Fe allwch ddewis taliadau wythnosol neu bob pedair wythnos.

Beth a gaiff ei ystyried wrth gyfrifo dyfarndal eich credyd treth?

Y mae faint o gredydau treth yr ydych yn eu derbyn yn dibynnu ar amgylchiadau personol eich teulu ac ar eich incwm blynyddol crynswth.

Yr amgylchiadau personol a gaiff eu hystyried yw:

***ar gyfer* Credyd Treth Gwaith**

- A ydych yn rhiant unigol neu'n un o gwpl ai peidio;
- A ydych yn gweithio 30 o oriau neu fwy yr wythnos;
- A oes gennych anabledd;
- A ydych chi neu'ch cymar yn cael y gyfradd uchel o ofal LBA;
- A oes gennych gostau gofal plant cymwys;
- A ydych yn 50 mlwydd oed neu'n hŷn ac yr ydych wedi bod yn ddiweddar ar rai budd-daliadau neilltuol.

***ar gyfer* Credyd Treth Plant**

- Nifer y plant dibynnol sydd gennych;
- A oes gennych faban sydd dan 1 mlwydd oed;
- Nifer y plant sy'n cael unrhyw gyfradd o LBA neu sydd wedi'u cofrestru fel dall;
- Nifer y plant sy'n cael cyfradd uchel o ofal LBA.

Cyfrifo'ch incwm

Fe fydd eich hawl i gredydau treth hefyd yn dibynnu ar eich incwm trethadwy blynyddol. Er bod credydau treth yn seiliedig ar incwm, ni ddylech dybio bod gennych ormod o arian i fod yn gymwys. Yr ydych yn hollol sicr o gael rhywfaint o Gredyd Treth Plant cyn belled â bod eich incwm yn llai na £58,000 (£66,000 os oes gennych faban dan 1 mlwydd oed 1). Mewn rhai amgylchiadau (e.e. y mae gennych fwy nag un plentyn ar LBA ac y mae gennych gostau gofal plant cymwys sylweddol), fe allech gael rhywfaint o gredydau treth hyd yn oed os yw'ch incwm yn uwch na'r ffigurau hyn. Os ydych yn un o gwpl, yna fe gaiff incwm eich cymar ei gyfrif. Y mae incwm plentyn dibynnol bob amser yn cael ei ddiystyru'n llwyr. Hyd yn oed os ydych yn credu y bydd eich eich incwm yn rhy uchel i gael credydau treth, y mae'n werth gwneud cais. Fe wna hyn ddiogelu'ch hawl i gael eich credydau treth wedi'u hôl-ddyddio pe byddech yn digwydd gweld gostyngiad annisgwyl yn eich incwm yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Y mae dyfarndal y credyd treth fel arfer yn cael ei asesu ar yr incwm o'r flwyddyn dreth flaenorol. Fodd bynnag, os yw'ch incwm am y flwyddyn gyfredol yn debygol o fod yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol, fe gaiff amcangyfrifiad o'ch incwm cyfredol ei ddefnyddio yn hytrach. Os yw'ch incwm am y flwyddyn gyfredol yn debygol o fod yn fwy na'ch incwm am y flwyddyn flaenorol o fwy na £2,500, yna fe gaiff yr amcangyfrifiad o'ch incwm am y flwyddyn gyfredol namyn £2,500 ei ddefnyddio.

Pa incwm sy'n cyfrif?

Y mae incwm blynyddol crynswth cyn treth yn cael ei gyfrif. Fel rheol gyffredinol, y mae incwm sy'n drethadwy yn cael ei ystyried. Y mae hyn yn cynnwys:

- Enillion gros;
- Elw trethadwy oddi wrth hunan-gyflogaeth;
- Rhywfaint o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol gan gynnwys **Lwfans Gofalwr** (gweler isod y rhai hynny nas cyfrifir);
- Incwm o eiddo;
- Incwm o gyfalaf;
- Pensiynau (y wladwriaeth, preifat a galwedigaethol);
- Incymau eraill yn ddarostyngedig i dreth incwm.

Pa incwm a anwybyddir?

Y mae rhai mathau o incwm yn cael eu hanwybyddu'n llwyr er dibenion credyd treth. Y mae'r rhain yn cynnwys:

- Taliadau Cynhaliaeth;
- Y rhan fwyaf o fathau o incwm myfyrwyr;
- Taliadau Mabwysiadu / Maethu (ond nid unrhyw elfen o ddyfarndal);
- Lwfans Byw i'r Anabl;
- Lwfans Gweini;
- Budd-dal Plant;
- Lwfans Gwarcheidwad;
- Cymhorthdal Incwm;
- Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm;
- Taliad Profedigaeth;
- Lwfans Mamolaeth;
- Y £100 yr wythnos cyntaf o unrhyw Dâl Mamolaeth Statudol,
- Tâl Tadolaeth Statudol neu Dâl Mabwysiadu Statudol;
- Lwfans Anabledd Difrifol;
- Budd-dal Analluogrwydd cyfradd isel tymor byr;
- Budd-dal Analluogrwydd tymor hir trosiannol (h.y. yn dâl ers cyn 13.04.95);
- Budd-dal Anafiadau Diwydiannol.

Nid yw'r rhestr hon yn un drwyadl – y mae rhai mathau eraill o incwm hefyd yn cael eu hanwybyddu.

Beth a ddigwydd pe bae gennyf lawer o gyfalaf neu gynilion?

Nid oes yna derfyn cyfalaf sy'n rhwystro cais am gredydau treth. Yn hytrach, y mae unrhyw incwm trethadwy yr ydych yn ei dderbyn oddi wrth eich cyfalaf yn cael ei gyfrif; er enghraifft, llog ar eich cynilion (oni bai bod hyn mewn cyfrif cynilo di-dreth megis ISA).

Faint o gredydau treth a gaf?

Y mae Cyllid y Wlad yn defnyddio amgylchiadau'ch teulu i gyfrifo 'hawl i'r credyd treth uchaf'. Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm neu LCG sy'n seiliedig ar incwm, y mae gennych yr hawl awtomatig i'r Credyd Treth Plant uchaf. Neu fel arall, fe fydd arnoch angen cymharu'ch incwm trethadwy blynyddol i bennu trothwy. Y mae hyn yn **£13,910** os ydych ond yn gymwys am Gredyd Treth Plant a **£5,220** os ydych hefyd yn gymwys am Gredyd Treth Gwaith.
Os yw'ch incwm ar neu islaw'r trothwy, fe wnewch dderbyn dyfarndal y credyd treth uchaf ar gyfer eich amgylchiadau. Os yw'ch incwm trethadwy blynyddol yn uwch na'r trothwy perthnasol, fe gaiff y dyfarndal ei ostwng - am bob £1 o incwm sydd gennych dros y trothwy, fe gaiff eich hawl i'r credyd treth uchaf ei ostwng 37 ceiniog. Fodd bynnag, yr ydych yn hollol sicr o dderbyn o leiaf £545 y flwyddyn cyn belled â bod eich incwm trethadwy blynyddol yn llai na £50,000. Fe elwir y taliad hwn yn elfen teulu o Gredyd Treth Plant. Os yw'ch incwm yn fwy na £50,000 y flwyddyn, y mae'r elfen teulu yn gostwng yn raddol.

Defnyddio'r tablau

Y mae'r tudalennau a ganlyn yn cynnwys amryw o dablau cyfrifydd parod i'ch cynorthwyo chi i amcangyfrif faint o gredydau treth y gallech eu cael. Er bod credydau treth fel arfer yn cael eu cyfrifo fel dyfarndal blynyddol, fe ddengys y tablau'r symiau wythnosol cyfwerth. Y mae'r holl symiau wedi'u crynhau i'r bunt agosaf.

Os nad ydych chi na'ch cymar yn gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos, defnyddiwch Dabl 1 – y mae yna golofnau gwahanol, yn dibynnu ar y nifer o blant sydd gennych a faint ohonynt sy'n anabl. Fe gaiff plentyn ei gategoreiddio fel anabl os ydyw wedi'i gofrestru fel dall neu y mae'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl ar unrhyw gyfradd. Defnyddiwch y golofn briodol i gael syniad o faint o gredydau treth y gallai teulu yn eich amgylchiadau eu derbyn (cofiwch, fe ddefnyddir symiau wythnosol).

Os yw naill ai chi neu'ch cymar yn gweithio am o leiaf 16 o oriau'r wythnos, y mae'r tabl y dylech droi ato yn dibynnu ar y nifer o blant yn eich teulu a faint ohonynt sy'n anabl. Y mae plentyn yn cael ei gategoreiddio fel anabl os ydyw wedi'i gofrestru fel dall neu os ydyw'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl.

- Os oes gennych 1 plentyn ac y mae'r plentyn hwnnw yn anabl, defnyddiwch Dabl 2;
- Os oes gennych 2 blentyn ac y mae 1 ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 3;
- Os oes gennych 2 blentyn ac y mae'r ddau ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 4;
- Os oes gennych 3 phlentyn ac y mae 1 ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 5;
- Os oes gennych 3 phlentyn ac y mae 2 ohonynt yn anabl, defnyddiwch Dabl 6.

Beth yw'r sefyllfa os ydych yn talu am ofal plant?

Fe all faint o gredydau treth yr ydych yn eu derbyn fod yn uwch os ydych yn talu am ofal plant cymwys. Y mae gan Dablau 2-6 golofnau ychwanegol sy'n dangos y dyfarndaliadau credyd treth y gallai rhieni eu derbyn pan fônt yn talu'r uchafsymiau tuag at ofal plant cymwys. Gweler yr adran gynharach am yr elfen gofal plant o Gredyd Treth Gwaith am fanylion ynglŷn â pha bryd y gellir cymryd costau gofal plant i

ystyriaeth. Nid yw'n bosibl cael cymorth gyda chostau gofal plant os ydych ond yn gymwys i gael Credyd Treth Plant.

Tabl 1: Yn gymwys am Gredyd Treth Plant yn unig

Incwm trethadwy crynswth blynyddol	Teulu gydag 1 plentyn. Y mae'r plentyn hwnnw yn anabl. (£) wythnosol	Teulu gyda 2 blentyn. Y mae 1 plentyn yn anabl. (£) wythnosol	Teulu gyda 2 blentyn. Y mae'r ddau yn anabl. (£) wythnosol	Teulu gyda 3 phlentyn. Y mae 1 plentyn yn anabl. (£) wythnosol	Teulu gyda 3 Phlentyn. Y mae 2 yn anabl. (£) wythnosol
£13,910 ac is	86	119	163	151	195
£15,000	79	111	155	144	188
£20,000	43	76	120	108	152
£25,000	10	40	84	73	116
£30,000	10	10	48	37	81
£35,000	10	10	13	10	45
£40,000 – £50,000	10	10	10	10	10
£55,000	4	4	4	4	4

- **Os oes gennych faban sydd o dan 1 mlwydd oed, fe allwch fod yn gymwys am daliadau uwch.**
- **Os oes gennych blentyn sy'n derbyn y gyfradd uchel o elfen gofal LBA, fe allwch fod yn gymwys am daliadau uwch.**

Tabl 2: Teulu sy'n Gweithio sydd ag 1 plentyn, ac y mae'r plentyn hwnnw'n anabl.

Incwm trethadwy cynswth blynyddol	Dim costau gofal plant cymwys (£) wythnosol	Yn cynnwys costau gofal plant uchaf posibl (£) wythnosol
£5,220 or under	148	271
£10,000	127	249
£15,000	91	214
£20,000	56	178
£25,000	20	143
£30,000	10	107
£35,000	10	72
£40,000	10	36
£45,000	10	10
£50,000	10	10
£55,000	4	4

Y mae'r tabl hwn yn tybio bod teuluoedd sydd ag incymau o £10,000 ac uwch yn gweithio am 30 o oriau'r wythnos neu fwy.

Fe ellir talu taliadau uwch i deuluoedd sydd â gweithiwr anabl, neu sydd â baban sy'n ieuengach nag un flwydd oed neu sydd â phlentyn ar y gyfradd uchel o elfen gofal LBA, neu sydd â rhywun sy'n 50 mlwydd oed neu hŷn yn dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod ar rai budd-daliadau neilltuol.

Tabl 3: Teulu sy'n Gweithio gyda 2 blentyn, ac y mae un ohonynt yn anabl.

Incwm trethadwy crynswth blynyddol	Dim costau gofal plant cymwys (£) wythnosol	Yn cynnwys gofal plant uchaf posibl ar gyfer 1 plentyn (£) wythnosol	Yn cynnwys gofal plant uchaf posibl ar gyfer 2 neu fwy o blant (£) wythnosol
£5,220 neu is	181	303	391
£10,000	159	282	369
£15,000	124	246	334
£20,000	88	210	298
£25,000	53	175	263
£30,000	17	139	226
£35,000	10	104	191
£40,000	10	68	156
£45,000	10	33	120
£50,000	10	10	85
£55,000	4	4	49

Y mae'r tabl hwn yn tybio bod teuluoedd gydag incymau o £10,000 ac uwch yn gweithio am 30 o oriau'r wythnos neu fwy.

Fe ellir talu taliadau uwch i deuluoedd sydd â gweithiwr anabl, neu sydd â baban sy'n ieuengach nag un flwydd oed neu sydd â phlentyn ar y gyfradd uchel o elfen gofal LBA, neu sydd â rhywun sy'n 50 mlwydd oed neu hŷn yn dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod ar rai budd-daliadau neilltuol.

Tabl 4: Teulu sy'n Gweithio gyda 2 blentyn, ac y mae'r ddau ohonynt yn anabl.

Incwm trethadwy crynswth blynyddol	Dim costau gofal plant cymwys (£) wythnosol	Yn cynnwys gofal plant uchaf posibl ar gyfer 1 plentyn (£) wythnosol	Yn cynnwys gofal plant uchaf posibl ar gyfer 2 neu fwy o blant (£) wythnosol
£5,220 neu is	225	347	435
£10,000	203	326	413
£15,000	168	290	378
£20,000	132	255	342
£25,000	97	219	307
£30,000	61	184	271
£35,000	25	148	235
£40,000	10	112	200
£45,000	10	77	164
£50,000	10	41	129
£55,000	4	4	93

Y mae'r tabl hwn yn tybio bod teuluoedd gydag incymau o £10,000 ac uwch yn gweithio am 30 o oriau'r wythnos neu fwy.

Fe ellir talu taliadau uwch i deuluoedd sydd â gweithiwr anabl, neu sydd â baban sy'n ieuengach nag un flwydd oed neu sydd â phlentyn ar y gyfradd uchel o elfen gofal LBA, neu sydd â rhywun sy'n 50 mlwydd oed neu hŷn yn dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod ar rai budd-daliadau neilltuol.

Tabl 5: Teulu sy'n Gweithio gyda 3 phlentyn, ac y mae un ohonynt yn anabl.

Incwm trethadwy crynswth blynyddol	Dim costau gofal plant cymwys (£) wythnosol	Yn cynnwys gofal plant uchaf un ar gyfer 1 plentyn (£) wythnosol	Yn cynnwys gofal plant uchaf un ar gyfer 2 neu fwy o blant (£) wythnosol
£5,220 neu is	213	335	423
£10,000	192	314	402
£15,000	156	278	366
£20,000	120	243	330
£25,000	85	207	295
£30,000	49	172	259
£35,000	14	136	224
£40,000	10	101	188
£45,000	10	65	153
£50,000	10	30	117
£55,000	4	4	81

Y mae'r tabl hwn yn tybio bod teuluoedd gydag incymau o £10,000 ac uwch yn gweithio am 30 o oriau'r wythnos neu fwy.

Fe ellir talu taliadau uwch i deuluoedd sydd â gweithiwr anabl, neu sydd â baban sy'n ieuengach nag un flwydd oed neu sydd â phlentyn ar y gyfradd uchel o elfen gofal LBA, neu sydd â rhywun sy'n 50 mlwydd oed neu hŷn yn dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod ar rai budd-daliadau neilltuol.

Tabl 6: Teulu sy'n Gweithio gyda 3 phlentyn, ac y mae dau ohonynt yn anabl.

Incwm trethadwy crynswth blynyddol	Dim costau gofal plant cymwys (£) wythnosol	Yn cynnwys gofal plant uchaf un ar gyfer 1 plentyn (£) wythnosol	Yn cynnwys gofal plant uchaf un ar gyfer 2 neu fwy o blant (£) wythnosol
£5,220 neu is	257	380	467
£10,000	236	358	446
£15,000	200	323	410
£20,000	165	287	375
£25,000	129	252	339
£30,000	94	216	304
£35,000	58	180	268
£40,000	22	145	232
£45,000	10	109	197
£50,000	10	74	161
£55,000	4	38	126

Y mae'r tabl hwn yn tybio bod teuluoedd gydag incymau o £10,000 ac uwch yn gweithio am 30 o oriau'r wythnos neu fwy.

Fe ellir talu taliadau uwch i deuluoedd sydd â gweithiwr anabl, neu sydd â baban sy'n ieuengach nag un flwydd oed neu sydd â phlentyn ar y gyfradd uchel o elfen gofal LBA, neu sydd â rhywun sy'n 50 mlwydd oed neu hŷn yn dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod ar rai budd-daliadau neilltuol.

Gwneud cais cychwynnol am Gredydau Treth

Y mae Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith yn cael eu gweinyddu gan Gyllid y Wlad ac y mae'r ddau i'w hawlio ar ffurflen gais TC600. Y mae hon ar gael oddi wrth eich swyddfa leol o Gyllid y Wlad neu drwy gyfrwng y Llinell Gymorth Credydau Treth ar 0845 300 3900 (ffôn testun 0845 300 3909).

Yng Ngogledd Iwerddon, ar 0845 603 2000 (ffôn testun 0845 607 6078). Fe ellir gwneud ceisiadau hefyd drwy gyfrwng y Wefan: https://www.taxcredits.inlandrevenue.gov.uk/HomeIR.aspx

Fe fydd arnoch angen darparu manylion o'ch incwm trethadwy am y flwyddyn dreth flaenorol. Fe ellir cael yr wybodaeth hon oddi wrth eich P60, eich dalenni cyflog o'r gwaith neu oddi wrth ddatganiad blynyddol o fudd-dal trethadwy oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Fe ellir ôl-ddyddio ceisiadau hyd at 3 mis. Ar yr adeg yr ysgrifennir hyn, nid oes gan y ffurflen hawlio adran yn eich gwahodd i ofyn am ôl-ddyddio. Os ydych yn dymuno gofyn am hyn, fe ddylech naill ai atodi deisyfiad ysgrifenedig am ôl-ddyddio wrth eich pecyn cais neu ffonio'r swyddfa Credydau Treth parthed y mater hwn.

Unwaith y mae Cyllid y Wlad wedi prosesu'ch cais, fe ddylent anfon hysbysiad o benderfyniad atoch. Fe wna hyn amlinellu nid yn unig faint o gredydau treth a delir ichi ond hefyd yr amgylchiadau teuluol y mae'ch dyfarndal yn seiliedig arno (e.e. eich incwm trethadwy blynyddol, cyfanrif y plant dibynnol sydd gennych, nifer y plant a gategoreiddir fel anabl). Y mae'n bwysig eich bod yn gwirio'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau ei bod yn fanwl gywir. Os nad ydyw'n fanwl gywir, yna fe allai arwain at naill ai tandaliad neu ordaliad credydau treth.

Adolygiadau diwedd y flwyddyn ac adnewyddu'ch dyfarndal

Unwaith y caiff ei ddyfarnu, y mae dyfarndal y credyd treth fel arfer yn para tan ddiwedd y flwyddyn dreth. Y mae Cyllid y Wlad wedyn yn cynnal adolygiad blynyddol. Y maent yn anfon pecyn adolygu atoch sy'n amlinellu'r manylion personol a ddefnyddir i gyfrifo'ch dyfarndal presennol, y bydd yn rhaid ichi'i wirio am gywirdeb. Fe ofynnir ichi gadarnhau neu gywiro'r wybodaeth hon a hefyd i gadarnhau'ch incwm trethadwy blynyddol am y flwyddyn sydd newydd orffen.

Unwaith y mae Cyllid y Wlad yn derbyn cadarnhad o'ch manylion, fe wnânt ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynorthwyo gyda chyfrifo dyfarndal eich credyd treth am y flwyddyn dreth newydd. Fe wnânt hefyd ddefnyddio'r manylion hyn i wirio a ydych wedi derbyn y swm cywir o gredydau treth yn y flwyddyn sydd newydd fynd heibio. Os nad thalwyd digon o gredydau treth ichi, fe ddylech dderbyn cyfandaliad am unrhyw ôl-ddyledion. Os talwyd gormod o gredydau treth ichi, fe all Cyllid y Wlad fynd ati i adennill yr arian dros ben a dalwyd - fel arfer drwy ostwng eich dyfarndal am y flwyddyn dreth newydd (gweler yr adran isod o dan y pennawd 'Gordaliadau Credydau Treth'). Yr ydym yn cynhyrchu canllaw cryno i 'Adolygiadau Blynyddol o Gredydau Treth', sydd ar gael am ddim oddi wrth y Llinell Gymorth.

Newidiadau mewn amgylchiadau yn ystod y flwyddyn dreth

Er y bydd dyfarndal y credyd treth fel arfer yn ddilys tan ddiwedd y flwyddyn dreth, fe ellir ei addasu yn ystod y flwyddyn os oes yna newid perthnasol mewn amgylchiadau.

Y mae'n rhaid dweud wrth Gyllid y Wlad am rai newidiadau neilltuol o fewn 3 mis neu fe fydd yna gosb o £300 yn eich wynebu. Y rhain yw:

- newid yn nifer yr oedolion sy'n hawlio (h.y. yn mynd o gwpl i riant unigol, neu i'r gwrthwyneb); neu
- £10 neu fwy o ostyngiad yng nghyfartaledd costau gofal plant am o leiaf 4 wythnos yn olynol; neu os ewch dramor am fwy nag 8 wythnos (12 wythnos os ewch dramor oherwydd gwaeledd neu brofedigaeth).

Nid oes yn rhaid dweud am newidiadau eraill mewn amgylchiadau tan ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, fe all ei fod er eich lles i ddweud am rai newidiadau yng nghynt. Y mae yna reol ôl-ddyddio 3 mis sy'n golygu y gallwch golli arian os ydych yn oedi cyn dweud wrth Gyllid y Wlad ynglŷn â newid a fyddai'n cynyddu'ch hawl am gredyd treth (e.e. plentyn newydd yn ymuno â'ch teulu).

Y mae yna rai eithriadau i'r terfyn ôl-ddyddio 3 mis. Os dyfarnir LBA i'ch plentyn neu y mae'i ddyfarndal presennol o LBA yn cael ei gynyddu i'r gyfradd uchaf am ofal personol, fe all hyn arwain at daliadau ychwanegol o Gredyd Treth Plant. Pan ydych yn gwneud cais am LBA dros eich plentyn (neu'n gofyn am gynyddu dyfarndal presennol), sicrhewch eich bod yn gadael i'r swyddfa Credydau Treth wybod. Cyn belled ag eich bod yn dweud wrth y swyddfa Credydau Treth eich bod yn gwneud hyn ac wedyn yn ailgysylltu â hwynt i'w hysbysu pan gewch ddyfarndal, fe ellir ôl-ddyddio unrhyw gredydau treth ychwanegol yn unol â'r LBA, hyd yn oed er y gall hyn fod am fwy na 3 mis. Fe ddylech gymryd camau cyffelyb os oes gennych chi neu'ch cymar broblemau iechyd ac yr ydych yn hawlio LBA yn eich rhinwedd eich hun.

Os oes yna newid mewn amgylchiadau yn gostwng dyfarndal eich credyd treth, y mae'r gostyngiad hwnnw bob amser yn cael ei ôl-ddyddio yn llawn. Os hoffech osgoi gordaliadau neu dandaliadau, fe ddylech hysbysu'r swyddfa Credydau Treth ynglŷn ag unrhyw newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau fel y maent yn digwydd.

Newidiadau mewn incwm

Os oes yna newid yn eich incwm, fe allwch ddewis dweud wrth Gyllid y Wlad yn syth neu ei gadael hi tan ddiwedd y flwyddyn dreth. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno osgoi gordaliadau neu dandaliadau mewn credydau treth, y mae er eich lles chi i ddweud am godiadau neu ostyngiadau sylweddol mewn incwm fel y maent yn digwydd.

Gordaliadau Credydau Treth

Os ydych wedi derbyn gordaliad o gredydau treth, fe fydd Cyllid y Wlad fel arfer yn mynd ati i adennill yr arian dros ben a dalwyd drwy ostwng eich taliadau credyd treth.

Ni ddylai Cyllid y Wlad adennill gordaliad a darddodd o ganlyniad i 'gamgymeriad gan swyddogion', cyn belled â nad oedd modd yn rhesymol ddisgwyl ichi sylweddoli eich bod yn cael eich gordalu.

Yn ychwanegol, y mae gan Gyllid y Wlad yr hawl i ddewis peidio ag adennill gordaliad os gallwch ddangos y bydd hyn yn peri cyni ichi. Y mae Cod Ymarfer Cyllid y Wlad ynglŷn â gordaliadau yn crybwyll rhai o'r materion a all fod yn berthnasol wrth bennu'r hyn yw cyni. Y mae hyn yn cynnwys pan allai iechyd plentyn o dan 5 neu aelod o deulu sydd ag anableddau gael ei amharu'n andwyol.

Fe ragwelir y bydd y rhan fwyaf o ordaliadau yn dod i'r amlwg yn yr adolygiad ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, fe all 'gordaliad tebygol' hefyd ddod i'r fei yn ystod y flwyddyn. Yn yr achos olaf, fe fydd Cyllid y Wlad fel arfer yn ceisio â lleihau'ch dyfarndal cyfredol yn y gobaith y gellir dileu'r gordaliad (neu o leiaf ei leihau) erbyn diwedd y flwyddyn dreth. Os byddai hyn yn peri cyni ichi, fe all Cyllid y Wlad gytuno i wneud taliadau ychwanegol i ddod â'ch dyfarndal yn ei ôl i lefel uwch.

Chwiliwch am ragor o gyngor os dywedir wrthych gan Gyllid y Wlad eich bod wedi'ch gordalu neu ei bod yn debygol eich bod wedi'ch gordalu. Os nad ydych yn derbyn bod yna ordaliad wedi'i wneud neu'ch bod yn amau maint y gordaliad, fe allwch gyflwyno apêl. Fodd bynnag, os ydych yn derbyn eich bod wedi'ch gordalu, nid oes yna hawl apelio yn erbyn penderfyniad gan Gyllid y Wlad i adennill yr arian hynny. Yn hytrach, fe allwch ofyn iddynt ddefnyddio'u hawl i beidio ag adennill yr arian.

Y mae Cyswllt Teulu yn cynhyrchu 'Canllaw cryno i Ordaliadau Credydau Treth', sy'n ymdrin â'r materion hyn yn fanylach. Y mae hwn ar gael am ddim oddi wrth y Llinell Gymorth.

Sut y mae modd imi ofyn am newid penderfyniad credyd treth?

Fe all Cyllid y Wlad ailystyried penderfyniad os oes yna newid mewn amgylchiadau, neu os ydynt wedi gwneud camgymeriad, neu os ydynt yn credu bod eich dyfarndal yn anghywir.

Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad gan Gyllid y Wlad, fe allwch apelio. Y terfyn amser ar gyfer apelio yw 30 o ddiwrnodau oddi ar ddyddiad y penderfyniad. Y mae'n rhaid i apêl fod yn ysgrifenedig ac y mae'n rhaid iddo nodi'r rhesymau pam eich bod yn apelio. Fe ellir gwneud apeliadau ar ffurflen

TC623, a geir ar ddiwedd taflen WTC/AP sydd ar gael oddi wrth Gyllid y Wlad. Oni bai eich bod yn dweud am newid mewn amgylchiadau, y mae hi fel arfer yn well gofyn am apêl yn hytrach nag am adolygiad. Y rheswm am hyn yw na chaiff terfyn amser yr apêl o 30 o ddiwrnodau ei ymestyn os gofynnwch am adolygiad ac y mae hyn yn cael ei wrthod.

Y mae apeliadau hwyr weithiau'n bosibl hyd at flwyddyn a 30 o ddiwrnodau ar ôl penderfyniad. Fodd bynnag, fe ganiateir apêl hwyr ond mewn 'amgylchiadau arbennig', ac felly fe ddylech bob amser geisio â sicrhau eich bod yn cadw at derfyn amser arferol yr apêl.

Credydau Treth a mathau eraill o gymorth ar gyfer teuluoedd sydd ar incymau isel

Am gyngor manwl ynglŷn â sut y bydd cais am gredyd treth yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau yr ydych yn eu cael ar hyn o bryd, cysylltwch â Llinell Gymorth am ddim, os gwelwch yn dda.

Cymhorthdal Incwm (CI) a Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm (LCGsi)

Y mae Credyd Treth Plant yn disodli taliadau dros blant a wneir gyda CI neu LCGsi. Gweler y blwch uchod ar 'Credydau Treth a Theuluoedd sydd ar Gymhorthdal Incwm' am fwy o fanylion.

Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

Y mae taliadau cyfredol o gredydau treth yn cael eu cyfrif fel incwm (oni bai eich bod dros 60, ac felly fe gânt eu hanwybyddu) wrth gyfrifo ad-daliadau rhent a threth cyngor. Fodd bynnag, y mae taliadau am ôl-ddyledion credydau treth yn aml yn cael eu diystyru. Cysylltwch â'r Llinell Gymorth am ragor o gyngor.

Budd-daliadau Iechyd

Fe allwch gael cymorth llawn gyda chostau iechyd os yw'ch incwm trethadwy blynyddol yn llai na throthwy sefydlog ac yr ydych yn cael:

- Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant; neu
- Gredyd Treth Gwaith gydag elfen anabledd; neu
- Gredyd Treth Plant yn unig.

Yr oedd y trothwy blynyddol yn £14,600 yn ystod 2004/05. Y mae'n debygol o fod ychydig yn uwch yn ystod 2005/06.

Llefrith a Fitaminau Am Ddim

Os oes gennych blentyn dan 5, ac y mae gennych hawl i Gredyd Treth Plant (ond nid Credyd Treth Gwaith) ac y mae gennych incwm trethadwy blynyddol o

lai na £13,910, fe allwch fod yn gymwys am lefrith a fitaminau am ddim. Fe gaiff y cymorth hwn ei ddarparu gan y Cynllun Bwyd Lles, sydd i'w ddisodli yn ystod 2005/06 gan Gynllun Cychwyn Iach newydd sy'n cynnig talebau am rychwant o fwydydd gan gynnwys ffrwythau ir, llysiau a llefrith.

Cinio Ysgol Am Ddim

Fe fyddwch yn gallu cael cinio ysgol am ddim os oes gennych hawl i gael CTP (ond nid Credyd Treth Gwaith) ac y mae'ch incwm trethadwy blynyddol yn llai na £13,910.

Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn a Grantiau Angladd

Fe allech fedru hawlio'r rhain os ydych yn cael: CTG gydag elfen anabledd neu elfen anabledd difrifol; CTP ar gyfradd sy'n uwch na'r 'elfen teulu' sylfaenol.

Cysylltiadau ar gyfer rhagor o wybodaeth a chyngor

Os hoffech ragor o gyngor parthed credydau treth neu fudd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill, a fyddech cystal â ffonio **Llinell Gymorth Cyswllt Teulu: 0808 808 3555** (Dydd Llun i ddydd Gwener, 10.00 y bore - 4.00 y pnawn) e-bost: helpline@cafamily.org.uk <mailto:helpline@cafamily.org.uk> Y mae Cyswllt Teulu yn cyflogi arbenigwr ar hawliau lles sy'n gallu rhoi cyngor manwl ynglŷn ag unrhyw agwedd o hawlio credydau treth. Y mae'r daflen wybodaeth hon yn un o ystod a gynhyrchir gan Cyswllt Teulu sy'n cynnwys *"Budd-daliadau, Credydau Treth a mathau eraill o gymorth ariannol"* a *"Gweithio a gofalu am blentyn anabl"*. Am gopïau, ac i ddod i wybod am daflenni gwybodaeth eraill, ffoniwch Linell Gymorth Cyswllt Teulu.

Y mae yna gyngor ar y ffôn hefyd ar gael oddi wrth **Llinell Gofalwyr / CarersLine: 0808 808 7777** (Dydd Mercher a dydd Iau, 10.00 y bore – 12.00 hanner dydd & 2.00 y pnawn – 4 y pnawn).

Os byddai'n amgenach gennych siarad gyda rhywun wyneb i wyneb, yna fe ddylech geisio â chysylltu â'ch Canolfan Gynghori leol neu gyda phrosiect hawliau lles.

Fe allwch gysylltu â **Llinell Gymorth Credydau Treth Cyllid y Wlad: 0845 300 3900** (ffôn testun 0845 300 3909). Os ydych yng Ngogledd Iwerddon, y rhif yw **0845 603 2000** (ffôn testun 0845 607 6078). Y mae llinellau yn agored o 8.00 y bore – 8.00 y pnawn, 7 niwrnod yr wythnos. Fe allwch hawlio credydau treth ar Wefan:
https://www.taxcredits.inlandrevenue.gov.uk/HomeIR.aspx